**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 4 Mai 2021 am 5.00pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd L Jones

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu Dros Dro
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Cwnstabl J. Roberts – Heddlu De Cymru

**26 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans wedi datgan diddordeb mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr agenda: 'Mae cyflogwr yr ymgeisydd yn ffrind i'r teulu a fydda i ddim yn pleidleisio ar yr eitem yma'; a
- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Howe wedi datgan buddiant mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr agenda: 'Rydw i'n 'nabod cyflogwr yr ymgeisydd a fydda i ddim yn pleidleisio ar yr eitem yma'.

**27 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**28 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021 yn rhai cywir.

**29** **Undeb Llafur UNITE a Diwydiant Tacsis RhCT**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod i'r Pwyllgor Trwyddedu bod Undeb Unite wedi sefydlu Cangen yn RhCT i gynrychioli gyrwyr tacsi sydd wedi cael trwydded gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at Adran 3 yr adroddiad, a oedd yn rhannu manylion ynglŷn â'r cyfleoedd cadarnhaol sy'n gysylltiedig â sefydlu Undeb Llafur.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y materion allweddol canlynol wedi cael eu nodi gan y Gangen, a'u bod nhw'n dymuno archwilio'r rhain gyda'r Cyngor:

- Ffioedd a Chostau - cais am adolygiad o'r costau cyfredol a chais penodol sy'n gofyn bod y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer 21/22 ddim yn cael ei weithredu; a
- Safle Tacsis Pontypridd - problemau sy'n codi gyda'i leoliad newydd (dros dro) yn Stryd y Taf.

Roedd yr Aelodau wedi cydnabod bod sefydlu Undeb Llafur yn rhywbeth cadarnhaol, a byddai'r cam yma'n hwyluso trafodaethau gwell a chyfleoedd ymgysylltu gyda'r maes. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynllun i sefydlu Cangen RhCT o Undeb UNITE a fydd yn cynrychioli gyrwyr tacsis sydd wedi derbyn trwydded gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**30** **Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 08.03.21 - 18.04.21**

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu rhoi yn ystod y cyfnod rhwng 8 Mawrth 2021 a 18 Ebrill 2021.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**31** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**32** **Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu gofrestru:**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr RC ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat ger bron y Pwyllgor.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

**33 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 24.03.21 - 23.04.21**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad sy'n amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 24 Mawrth 2021 a 23 Ebrill 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**34 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 08.03.21 - 18.04.21**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned adroddiad i'r Aelodau sy'n amlinellu manylion y Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 8 Mawrth 2021 ac 18 Ebrill 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**